



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae gofal a chymorth yng Nghymru yn newid

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi mwy o lais i chi yn eich gwasanaethau.

Rwy'n **berson anabl**, beth mae hyn yn ei olygu i mi?



Gofynnir i mi beth sy'n bwysig i mi. Mae gen i lais cryf wrth benderfynu beth sydd ei angen arnaf i sicrhau fy llesiant.



Os oes angen cymorth arnaf i godi fy llais, bydd rhywun yn siarad ar fy rhan.



Mae'r asesiad yn edrych ar yr hyn rwy'n gallu ei wneud, yr hyn rwy'n gallu ei wneud gyda chymorth ffrindiau a theulu, ac yna'n trefnu gofal a chymorth i mi gyda'r hyn nad ydw i'n gallu ei wneud.



Mae gen i fynediad hawdd at wybodaeth a chyngor.



Mae'r cyfreithiau sy'n fy nghadw'n ddiogel yn gryfach.



Mae mwy o wasanaethau ar gael i mi gael help pan mae ei angen arnaf, fel nad yw problemau'n gwaethygu.



Os ydw i mewn gofal, ac mai dyna sydd orau i bawb, byddaf i a'm teulu maeth yn cael cymorth i aros gyda'n gilydd nes fy mod yn 21 oed.



Os ydw i mewn addysg neu hyfforddiant byddaf yn cael cymorth i aros nes fy mod yn 25 oed.